CANLLAW I FYFYRWYR



CBAC

SAFON UWCH

# Hanes

## Uned 5: Dehongliadau Hanesyddol (asesiad di-arholiad)

Phil Star

HODDER EDUCATION
LEARN MORE

# Cynnwys

Gwneud y gorau o'r llyfr hwn . . . . 4

## Arweiniad i'r Cynnwys

Beth yw'r asesiad di-arholiad? . . . . 5
Testunau a chwestiynau . . . . 6
Sut caiff eich traethawd ei asesu? . . . . 9
Gweithio'n annibynnol . . . . 13
Diffinio 'deunydd ffynhonnell' . . . . 15
Cynllunio a strwythuro eich traethawd . . . . 18
Gwneud ymchwil ar gyfer eich traethawd . . . . 21
Creu cyflwyniad . . . . 24
Dehongliadau hanesyddol a datblygiad y ddadl hanesyddol . . . . 27
Dadansoddi a gwerthuso ffynonellau cynradd ar gyfer yr asesiad di-arholiad . . . . 37
O'r drafft i'r gwaith terfynol . . . . 50
Adolygu eich gwaith – ffurfiol a phenodol . . . . 56
Enghraifft wedi'i chwblhau . . . . 61
Defnyddio'r rhestr wirio . . . . 73
Cyflwyno eich traethawd . . . . 74

Atodiad 1 Cynllun marcio . . . . 75
Atodiad 2 Gridiau hunanasesu . . . . 77
Mynegai . . . . 79

Copyright: Sample material

# Arweiniad i'r Cynnwys

## Beth yw'r asesiad di-arholiad?

Caiff CBAC Hanes Safon Uwch ei asesu drwy 5 uned. Caiff pedair o'r unedau hyn eu hasesu drwy arholiadau ysgrifenedig ffurfiol sy'n cael eu hamseru – Uned 1 (Astudiaeth o Gyfnod); Unedau 2 a 4 (Astudiaethau Manwl); ac Uned 3 (Astudiaeth Eang). Caiff yr unedau hyn eu harholi a'u hasesu gan arholwyr allanol CBAC.

Mae Uned 5, sef yr Asesiad Di-arholiad, yn wahanol. Hwn yw eich cyfle i lunio darn annibynnol o waith mewn perthynas â chwestiwn ar fater o ddadl hanesyddol. Dyma'r camau, yn fras:

- Byddwch chi'n trafod â'ch athro er mwyn cytuno pa gwestiwn rydych chi'n dewis ei ateb.
- Byddwch yn cwblhau'r ateb i'r cwestiwn.
- Bydd eich ateb yn cael ei asesu'n fewnol gan yr athro.
- Bydd yr ateb yn cael ei safoni gan CBAC.

Mae'r asesiad di-arholiad yn werth 20% o gyfanswm y marciau Safon Uwch, ac mae'n gyfwerth â phob un o'r pedwar arholiad ysgrifenedig. Caiff ei wneud yn ystod Blwyddyn 13 yn y rhan fwyaf o ganolfannau arholi yng Nghymru. Rhaid i chi gwblhau traethawd hyd at 4,000 o eiriau, gan drafod gwahanol ddehongliadau o destun penodol sydd wedi arwain at ddadlau hanesyddol sylweddol.

Yn y bôn, mae'r asesiad di-arholiad yn gofyn i chi ymchwilio a gwerthuso mater sy'n agored i nifer o ddehongliadau hanesyddol gwahanol. Bydd gofyn i chi ddangos gwybodaeth hanesyddol am y mater neu'r datblygiad dan sylw, a dangos eich bod yn deall pam mae haneswyr wedi dehongli'r materion neu'r datblygiadau hynny mewn ffyrdd gwahanol. Cewch gyfle hefyd i ddangos dealltwriaeth o ddulliau a ffyrdd haneswyr o weithio.

Yn yr Asesiad Di-Arholiad, bydd angen i chi wneud y canlynol:

- ystyried y ddadl hanesyddol sy'n datblygu am y mater yn y cwestiwn, drwy drafod o leiaf dau ddehongliad hanesyddol gwahanol neu gyferbyniol
- ymchwilio a bod yn ymwybodol o waith o leiaf dau hanesydd a'u dehongliadau

**Cyngor**

Er mwyn trafod y ddadl hanesyddol sy'n datblygu, mae angen gwneud mwy na rhestru haneswyr a'u dehongliadau. Mae angen astudio'r rhesymau pam mae dehongliadau o'r fath wedi datblygu.

**Cyngor**

Peidiwch ag ysgrifennu mwy na 4,000 o eiriau. Ni fyddai hyn yn bodloni meini prawf Band 6, sy'n mynnu cael ymateb sy'n 'eglur, rhesymegol, cryno ac wedi'i lunio'n dda'. Mae rhwng 3,300 a 3,800 o eiriau'n ddelfrydol.

**Cyngor**

'Dehongliadau' yw safbwyntiau haneswyr ar ddigwyddiadau a datblygiadau hanesyddol.


Copyright: Sample material

Yr enw sy'n cael ei roi weithiau ar ddatblygiad y ddadl hanesyddol yw 'hanesyddiaeth'. Ar adegau mae rhai yn meddwl mai ystyr 'hanesyddiaeth' yw amlinellu neu ailadrodd barn nifer o haneswyr. Ond nid dyma beth sydd ei angen mewn gwirionedd yn eich asesiad di-arholiad. Yn yr asesiad hwnnw, mae disgwyl i chi drafod y rhesymau sydd wedi annog datblygiad y ddadl hanesyddol ar y mater dan sylw. Mae hyn yn golygu gwerthuso dehongliadau'r haneswyr drwy ddeall eu cyd-destun gwreiddiol.

Rhan allweddol arall o'ch gwaith ar eich asesiad di-arholiad yw ymchwilio a dewis amrywiaeth o ddeunydd ffynhonnell cynradd/gwreiddiol a chyfoes. Ar ôl i chi ddewis ystod o ffynonellau a chymryd tystiolaeth ohonynt, bydd angen i chi drafod sut a pham gallai'r dystiolaeth hon fod o werth i haneswyr sy'n ffurfio dehongliadau gwahanol, cyferbyniol neu amgen. Mae angen gwneud mwy na dweud bod 'y ffynhonnell hon o werth i X oherwydd...'

Mae angen i chi ddefnyddio'r sgiliau rydych chi wedi'u datblygu wrth astudio hanes er mwyn gwerthuso ffynonellau, gan ddangos eich bod yn deall sut mae haneswyr yn ystyried amrywiaeth o dystiolaeth gynradd a/neu gyfoes wrth ddehongli.

**Cyngor**

Mae'r asesiad di-arholiad yn gadael i chi ddangos eich bod yn deall sut i ddefnyddio'r amrywiaeth o dystiolaeth gynradd a/neu gyfoes i gefnogi dehongliadau gwahanol neu gyferbyniol.

**Crynodeb**

- Mae'r asesiad di-arholiad yn gadael i chi ddefnyddio a dangos y sgiliau rydych chi wedi eu datblygu'n barod wrth astudio hanes.
- Cewch gyfle i ymchwilio, trafod a llunio barn ar y mater sydd yn eich cwestiwn.
- Bydd angen i chi ymchwilio a gwerthuso ffynonellau cynradd/gwreiddiol o wybodaeth.
- Bydd angen i chi drafod sut mae'r ddadl hanesyddol wedi datblygu mewn perthynas â'r mater dan sylw.

# Testunau a chwestiynau

Mae'r dewis o destun a chwestiwn ar gyfer yr asesiad di-arholiad yn eang iawn. Er mwyn sicrhau bod y cwestiynau a osodir ar gyfer yr asesiad yn briodol ac yn gyson o ran yr hyn maen nhw'n ei ofyn gan y myfyrwyr, bydd yr holl gwestiynau yn cael eu cymeradwyo gan gymedrolwyr CBAC ymlaen llaw. Rhaid i athro yn eich ysgol neu'ch coleg wneud cais am gymeradwyaeth i'r cwestiwn.

Wrth osod cwestiwn ar gyfer eich asesiad, mae dau bosibilrwydd. Naill ai bydd eich athro'n cynnig cwestiwn ar ôl trafod â chi, neu cewch gyfle i ddewis un eich hun.



Copyright: Sample material

Dylai'r cwestiwn roi'r cyfle i chi gyflawni un neu ragor o'r canlynol:

- ymestyn a gwella eich gwybodaeth am agweddau ar hanes sydd wedi eu hastudio yn unedau ehangach y cwrs
- astudio testun sy'n ymestyn eich gwybodaeth hanesyddol, neu'n newid ystod neu faint eich gwybodaeth
- astudio mater dros gyfnod hirach o amser, fel nifer o ddegawdau
- astudio math gwahanol o hanes, fel hanes lleol neu ranbarthol
- ategu dysgu mewn meysydd astudio eraill, gan gynnwys cyfleoedd sy'n codi mewn pynciau eraill

## Dewis cwestiwn addas ar gyfer yr asesiad di-arholiad

Os ydych chi'n dewis cwestiwn sy'n cael ei gynnig gan eich canolfan, neu'n dewis eich cwestiwn penodol eich hun, mae angen ystyried sawl peth er mwyn gwneud yn siŵr bod eich cwestiwn yn derbyn cymeradwyaeth CBAC.

Dyma fydd yn cael ei ystyried wrth ofyn a yw'ch cwestiwn yn addas:

- a yw'r pwnc yn fater hawdd ei adnabod neu'n un 'prif ffrwd'? Hynny yw, rhaid iddo beidio â bod yn rhy astrus neu aneglur
- a oes dadl hanesyddol glir dros y testun sydd yn y cwestiwn?
- a yw'r cwestiwn yn cynnwys term neu ddatganiad gwerthusol sy'n rhoi cyfle i chi lunio barn ddilys gyda chefnogaeth?
- a oes amrywiaeth ddigonol o ddeunydd cynradd neu gyfoes i chi allu gwerthuso'r dystiolaeth sy'n galluogi haneswyr i lunio'u dehongliadau amrywiol?

Os na fydd yr elfennau hyn yn bresennol, bydd yn amhosibl i chi ymdrin â'r holl amcanion asesu (AA) yn effeithiol, ac ni fydd eich cwestiwn yn cael ei gymeradwyo.

Mae un rheol bwysig arall i'w chofio wrth ddewis eich cwestiwn. Er mwyn sicrhau nad yw cynnwys y cwrs Hanes TAG yn rhy gyfyng yn gyffredinol, ni fydd yn bosibl i destun a chwestiwn eich asesiad di-arholiad ddod o'r cynnwys rydych chi'n ei astudio yn Astudiaeth Fanwl Unedau 2 a 4. Er enghraifft, os yw eich canolfan wedi dewis yr Astudiaeth Fanwl ar Argyfwng Canol Oes y Tuduriaid yn Uned 2 a 4, ni fydd yn bosibl gosod cwestiwn ar ddehongliadau gwahanol o fater diddymu'r mynachlogydd. Byddai hynny'n golygu bod 60% o gynnwys ac asesiad yr holl gwrs TAG o fewn cyfnod hanesyddol cyfyng iawn.

Er hynny, cewch ailymweld â thestunau o'r Astudiaeth o Gyfnod neu'r Astudiaeth Eang mewn rhagor o ddyfnder. Neu cewch ystyried testunau o hanes unrhyw le arall yn y byd, ar yr amod bod digon o ffynonellau cynradd/gwreiddiol a gwahanol ddehongliadau ar gael i chi allu cyfrannu at y drafodaeth am y mater.

Er na allwch seilio'r asesiad di-arholiad ar yr Astudiaeth Fanwl, gallwch ei seilio ar yr un cyfnod â blynyddoedd yr Astudiaeth Fanwl. Er enghraifft, os yw dysgwr yn astudio'r Almaen Natsïaidd 1933–45 yn Uned 4, gallai edrych ar bolisi dyhuddo ddiwedd yr 1930au o safbwynt Prydeinig, neu'r Dirwasgiad yn UDA yn ystod yr 1930au.

**Cyngor**

Mae term neu ddatganiad gwerthusol yn rhoi cyfle i arwain at drafodaeth ar y mater ac i lunio barn ddilys. Enghreifftiau o dermau gwerthusol yw ymadroddion fel 'yn bennaf' ac 'ar y cyfan'. Mae datganiadau gwerthusol yn cynnwys ymadroddion fel 'i ba raddau' a 'pa mor ddilys'.



Copyright: Sample material

## Tasg 1

### A fyddai'r cwestiynau hyn yn cael eu cymeradwyo ar gyfer asesiad di-arholiad?

Mae'r rhestr wirio ganlynol yn crynhoi'r gofynion ar gyfer cwestiwn asesiad di-arholiad:

- Ydy'r testun yn fater adnabyddus neu brif ffrwd?
- Oes yna ddadl hanesyddol glir am y pwnc sydd dan sylw yn y cwestiwn?
- Ydy'r cwestiwn yn defnyddio term gwerthusol sy'n rhoi cyfle i gynnal dadl?
- A oes amrywiaeth ddigonol o ffynonellau cynradd, er mwyn i fyfyriwr werthuso pa dystiolaeth sy'n galluogi haneswyr i wneud eu dehongliadau amrywiol?

Ystyriwch y cwestiynau canlynol yn ôl y rhestr wirio. Ydyn nhw'n bodloni'r gofynion?

- 'Mae Chamberlain yn haeddu cael ei feirniadu fel dyn euog am ei bolisi dyhuddo tuag at yr Almaen rhwng 1937 ac 1939.' Pa mor ddilys yw'r asesiad hwn o bolisi tramor Chamberlain hyd at y datganiad o ryfel ym mis Medi 1939?
- I ba raddau rydych chi'n cytuno bod bomio Hiroshima a Nagasaki wedi'i wneud gyda'r bwriad o godi ofn ar yr Undeb Sofietaidd?
- 'Ymdrech yr Almaen i sicrhau goruchafiaeth gyfandirol oedd yn bennaf cyfrifol am ddechrau rhyfel yn Ewrop yn 1914.' Pa mor ddilys yw'r asesiad hwn o'r rhesymau dros dwf tensiynau yn Ewrop rhwng 1878 ac 1914?
- 'Roedd Tân y Reichstag yn ymdrech fwriadol gan y Natsïaid i atgyfnerthu eu rheolaeth dros yr Almaen yn 1933.' Pa mor ddilys yw'r asesiad hwn o Dân y Reichstag?
- Mae haneswyr yn anghytuno am rôl Owain Glyndŵr. I ba raddau rydych chi'n cytuno â'r safbwynt nad oedd Owain Glyndŵr yn fwy nag ysbeiliwr a llofrudd yn y cyfnod rhwng 1400 ac 1415?
- 'Rhwystro ac arafu'r ymgyrch dros bleidlais i fenywod wnaeth y WSPU.' Pa mor ddilys yw'r asesiad hwn o effaith y WSPU rhwng 1906 ac 1918?
- 'Doedd y Llychlynwyr yn ddim mwy na dihirod oedd yn lladd offeiriaid yn yr Oesoedd Canol cynnar.' Pa mor ddilys yw'r asesiad hwn o wareiddiad y Llychlynwyr rhwng yr wythfed a'r unfed ganrif ar ddeg?

Unwaith y bydd eich cwestiwn wedi'i gymeradwyo gan uwch safonwyr CBAC, gallwch ddechrau gweithio ar eich asesiad di-arholiad ar unwaith.

## Crynodeb

- Gwnewch yn siŵr bod y testun yn eich cwestiwn yn fater adnabyddus neu brif ffrwd.
- Gwnewch yn siŵr bod eich cwestiwn yn adlewyrchu dadl hanesyddol glir am y mater dan sylw yn y cwestiwn.
- Gwnewch yn siŵr bod eich cwestiwn yn cynnwys ymadrodd gwerthusol sy'n rhoi cyfle i chi lunio barn ddilys wedi'i chefnogi.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gallu defnyddio amrywiaeth ddigonol o ddeunydd cynradd neu gyfoes i allu gwerthuso'r dystiolaeth yn effeithiol.
- Gwnewch yn siŵr nad ydych chi'n dewis cwestiwn sy'n rhy debyg i gynnwys yr Astudiaeth Fanwl rydych chi'n ei hastudio.



Copyright: Sample material

# Sut caiff eich traethawd ei asesu?

Mae asesiad di-arholiad CBAC yn ymarfer lle mae angen cyfuno gwahanol rannau'r ateb er mwyn ymdrin â'r cwestiwn. Felly bydd angen gwerthuso deunydd o ffynhonnell gynradd/wreiddiol, a chysylltu hynny â'r broses o ffurfio dehongliadau amrywiol.

## Amcanion asesu

Bydd eich athro yn asesu'r asesiad ac yn rhoi marc ar wahân ar gyfer pob un o'r tri AA TAG Hanes. Mae'r rhan hon o'r canllaw yn esbonio beth ydyn nhw, a sut maen nhw'n gymwys wrth asesu eich asesiad di-arholiad.

### AA1

Mae amcan asesu 1 (AA1) yn golygu bod rhaid i chi wneud y canlynol:

> **Dangos, trefnu a chyfathrebu gwybodaeth a dealltwriaeth er mwyn dadansoddi a gwerthuso'r nodweddion allweddol sy'n perthyn i'r cyfnodau a astudiwyd, gan wneud safbwyntiau cadarnhaol ac archwilio cysyniadau, fel y bo'n briodol, o achos, canlyniad, newid, parhad, tebygrwydd, gwahaniaeth ac arwyddocâd.**

Mae'r asesiad di-arholiad yn cael ei farcio allan o 60, ac mae AA1 yn werth hyd at 15 marc – hynny yw, 25% o'r cyfanswm.

Wrth bennu bandiau a marciau ar gyfer AA1, bydd eich athro'n chwilio am dystiolaeth bod eich traethawd wedi'i strwythuro a'i ysgrifennu'n dda. Er mwyn pennu hyn, bydd yn chwilio am y canlynol:

- cyflwyniad clir
- cyfeiriadau rheolaidd at y cwestiwn dan sylw
- barn derfynol sy'n adlewyrchu canfyddiadau'r traethawd cyfan
- cyfuno a chysylltu drwy gydol y traethawd cyfan
- defnyddio gwybodaeth hanesyddol sy'n helpu i ddatblygu'r drafodaeth yn yr ateb

Nid yw eich athro'n dymuno gweld ateb sy'n gwneud dim mwy na disgrifio neu adrodd y cyd-destun hanesyddol cyffredinol, nac ateb sy'n gyfres o gwestiynau digyswllt.

### AA2

Mae amcan asesu 2 (AA2) yn golygu bod rhaid i chi wneud y canlynol:

> **Dadansoddi a gwerthuso deunydd ffynhonnell priodol, sy'n gynradd a / neu'n gyfoes â'r cyfnod, o fewn ei gyd-destun hanesyddol.**

Mae AA2 hefyd yn werth hyd at 15 marc – sef 25% o'r cyfanswm.

Wrth bennu bandiau a marciau AA2, bydd eich athro'n dymuno:

- eich gallu i werthuso ffynonellau cynradd neu gyfoes o fewn eu cyd-destun hanesyddol
- eich sgiliau ymchwilio wrth ddod o hyd i nifer o ffynonellau cynradd a/neu gyfoes – rhwng 6 ac 8 ffynhonnell fel arfer

**Cyngor**

I ennill marciau AA1 bydd angen i chi roi cyflwyniad gyda ffocws clir, dangos cyswllt yn eich ateb, defnyddio gwybodaeth hanesyddol briodol, a dod i farn derfynol.

**Cyngor**

I ennill marciau ar gyfer AA2, dylech ddewis amrywiaeth o 6–8 o ffynonellau a'u gwerthuso o ran eu cyfraniad wrth ddangos sut a pham mae'r ddadl hanesyddol am y pwnc wedi datblygu.



Copyright: Sample material

- eich gallu i ddadansoddi'r ffynonellau a ddewiswyd er mwyn esbonio sut y ffurfiwyd gwahanol ddehongliadau a phrofi eu dilysrwydd
- defnyddio'ch sgiliau gwerthuso ffynhonnell i ddangos sut gallai'r ffynonellau rydych chi wedi'u dewis fod wedi dylanwadu haneswyr wrth lunio o leiaf dau ddehongliad cyferbyniol neu wahanol

## AA3

Mae amcan asesu 3 (AA3) yn golygu bod rhaid i chi wneud y canlynol:

> **Dadansoddi a gwerthuso, mewn perthynas â'r cyd-destun hanesyddol, ffyrdd gwahanol y cafodd agweddau ar y gorffennol eu dehongli.**

Mae AA3 yn werth hyd at 30 marc – hynny yw, 50% o'r cyfanswm.

Wrth bennu bandiau a marciau ar gyfer AA3, bydd eich athro'n dymuno gwobrwyo'r canlynol:

- eich dealltwriaeth o'r ddadl hanesyddol sy'n datblygu ynghylch y mater yn y cwestiwn
- eich dealltwriaeth o'r rhesymau pam mae dehongliadau hanesyddol yn newid dros amser, a sut mae trafodaeth ar y mater wedi datblygu dros amser
- eich dealltwriaeth fod dehongliadau fel arfer yn ddilys wrth gael eu llunio, ond eu bod hefyd yn agored i'w herio, eu newid a'u datblygu dros amser wrth i wahanol haneswyr ymuno â'r drafodaeth ar y materion
- trafodaeth ar ddilysrwydd y dystiolaeth – dyma'r cysylltiad allweddol rhwng AA2 ac AA3 yn yr asesiad di-arholiad, a dyma pam mai'r ffordd orau o ymdrin â'r asesiad yw drwy ymagwedd gyfunol

**Cyngor**

I ennill marciau AA3 bydd angen i chi ddangos eich bod yn deall sut a pham mae'r ddadl hanesyddol ar y mater yn y cwestiwn wedi datblygu.

# Deall y cynllun marcio

Yn yr adran hon byddwn ni'n edrych ar sut bydd eich athro'n defnyddio'r marciau sydd ar gael yn y cynllun marcio. Caiff y rhain eu rhoi gan ddibynnu pa mor dda gallwch fodloni'r meini prawf sy'n diffinio'r amcanion asesu yn y cynllun marcio.

Os ydych chi'n deall y meini prawf hyn, gall hynny eich helpu i wybod beth i'w ddangos er mwyn cyrraedd y bandiau a'r marciau uchaf. Yn y lle cyntaf, mae angen i chi ddeall bod yr asesiad di-arholiad wedi'i gynllunio i'ch annog i lunio ymateb annibynnol ac unigol wrth ateb y cwestiwn. Bydd ymateb o'r fath yn cael ei farnu yn ei gyfanrwydd. Ond yn benodol, bydd eich athro'n edrych hefyd i weld pa mor dda mae meini prawf y cynllun marcio wedi cael eu bodloni.

Mae cynllun marcio yr asesiad di-arholiad wedi'i achredu a'i gyhoeddi. Mae i'w weld ym manyleb TAG Hanes CBAC ac yn Atodiad 1 ar ddiwedd y llyfr hwn.

Fel gyda phob cynllun marcio arall ar gyfer unedau TAG Hanes CBAC, mae cynllun marcio'r asesiad di-arholiad wedi'i osod mewn 6 band hierarchaidd. Mae gan bob band feini prawf sydd wedi'u cytuno, a rhain sy'n diffinio'r tri AA gwahanol i'w hasesu. Yr enw ar hwn yw cynllun marcio 'lefel yr ymateb'. Mae'r meini prawf yn y cynllun marcio yn diffinio pa nodweddion sydd i'w disgwyl yn y gwaith ar gyfer pob AA.



Copyright: Sample material

## Cymhwyso'r cynllun marcio

Wrth asesu eich traethawd, i ddechrau bydd eich athro yn defnyddio canllawiau CBAC i osod y traethawd o fewn un o chwe band y cynllun marcio.

Mae eich athro wedi cael arweiniad penodol mewn tri maes arbennig:

- Rhaid i'r broses o asesu'ch traethawd gael ei harwain gan y meini prawf sy'n ymwneud ag AA3. Mae hyn oherwydd bod AA3 yn werth 50% o'r marciau sydd ar gael, a hefyd oherwydd mai prif ofyniad yr asesiad di-arholiad yw eich bod yn ystyried, mewn perthynas â'r cyd-destun hanesyddol, y ffyrdd gwahanol mae agweddau ar y gorffennol wedi cael eu dehongli.
- Rhaid i'r marciau a'r bandiau ar gyfer AA1 ac AA2 beidio â bod yn uwch na'r marciau sy'n cael eu rhoi ar gyfer AA3. Bydd hyn yn atal ymgeiswyr rhag cael gormod o farciau am atebion sy'n canolbwyntio gormod ar ddisgrifio neu gyflwyno gwybodaeth yn unig, ac felly heb ganolbwyntio ar ateb y cwestiwn mewn ffordd sydd wedi'i integreiddio.

Wrth gymhwyso'r cynllun marcio, mae eich athro hefyd wedi cael cyngor i roi marciau i draethodau sy'n dangos sut mae'n bosibl dehongli tystiolaeth o'r ffynonellau cynradd/gwreiddiol a chyfoes mewn ffyrdd gwahanol. Rhaid i chi ddangos felly eich bod yn gallu gwerthuso amrywiaeth o ffynonellau yn eu cyd-destun hanesyddol, ac yn gallu trafod datblygiad y ddadl hanesyddol mewn perthynas â'r pwnc dan sylw. Ystyr cyd-destun hanesyddol yw'r sefyllfa lle cafodd y ffynhonnell ei chreu yn wreiddiol, a'i pherthynas â'r cwestiwn i'w ateb.

## Beth yw ystyr y bandiau?

Yn y cynllun marcio, bydd yr atebion gwannaf yn cael eu gosod ym Mand 1, a'r atebion gorau ym Mand 6. Er mwyn deall natur pob band, mae'n hanfodol cofio mai 'dehongliadau' yw barn haneswyr am ddigwyddiadau hanesyddol. Bydd y cwestiwn a ddewiswch yn cynnwys dehongliad o fater neu ddatblygiad. Bydd angen asesu dilysrwydd hwn ochr yn ochr ag o leiaf un dehongliad gwahanol.

### Band 1

Caiff Band 1 ei ddyfarnu i draethodau sy'n defnyddio dim ond ychydig o'r ffynonellau a ddewiswyd i drafod y dehongliad sydd yn y cwestiwn. Bydd atebion Band 1 yn canolbwyntio ar y dehongliad yn y cwestiwn yn unig, heb grybwyll na thrafod unrhyw ddehongliadau posibl eraill.

### Band 2

Caiff Band 2 ei ddyfarnu am ddangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o'r dehongliad yn y cwestiwn, ac o leiaf rywfaint o ymwybyddiaeth o ddehongliad posibl arall. Ar lefel Band 2, ni fydd eich athro'n disgwyl gweld unrhyw resymu dilys ynghylch pam mae'r dehongliadau hyn yn amrywio. Bydd yn dyfarnu marciau is Band 2 i draethawd sy'n cynnig naratif ar y testun, a/neu yn rhoi cofnod disgrifiadol o'r hanesyddiaeth sy'n perthyn i'r mater yn y cwestiwn.

**Cyngor**

Ceisiwch osgoi rhestru gormod o enwau wrth drafod sut a pham mae dehongliadau gwahanol yn cael eu ffurfio. Mae hyn yn fformiwläig iawn ac yn defnyddio gwybodaeth heb reswm.


Copyright: Sample material

## Band 3

Fel arfer mae traethodau Band 3 yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau cynradd i egluro agweddau ar y dehongliad yn y cwestiwn, yn ogystal ag un dehongliad arall o leiaf. Mae'r traethodau hyn gan amlaf yn gwerthuso ffynonellau, gan benderfynu a ydyn nhw'n 'ddefnyddiol' neu'n 'werthfawr' i'r dehongliadau dan sylw, yn hytrach na dangos unrhyw ddealltwriaeth wirioneddol o'r cysylltiad rhwng y ffynonellau a datblygiad y ddadl hanesyddol. Yn aml bydd traethodau Band 3 hefyd yn defnyddio'r ffynonellau i awgrymu mai'r rheswm dros y gwahaniaeth rhwng dehongliadau yw'r ffaith eu bod wedi eu hysgrifennu gan haneswyr gwahanol. Fyddan nhw ddim yn dangos ymwybyddiaeth glir o sut a pham mae dull haneswyr o ddewis ffynonellau yn gallu dangos datblygiad y ddadl hanesyddol.

### Cyngor

Yn aml bydd ymatebion Band 3 yn cael eu hysgrifennu mewn dull mecanistig neu fformiwläig, gydag atebion yn cael eu cyflwyno mewn adrannau ar wahân.

## Band 4

I gyrraedd marc Band 4, rhaid i chi ddangos rhywfaint o dystiolaeth o sgiliau gwerthuso ffynonellau wrth drafod y dehongliad yn y cwestiwn a dehongliadau posibl eraill, yn ogystal â rhai materion perthnasol am ddatblygiad y ddadl hanesyddol ynghylch y testun hefyd. Caiff marciau Band 4 eu rhoi am werthuso rhywfaint ar y ffynonellau dan sylw – sylwadau ar eu gwerth, eu defnyddioldeb, eu dibynadwyedd neu eu tuedd, er enghraifft – i ymdrin â'r cwestiwn ynghylch dilysrwydd dehongliad penodol. Ar lefel Band 4, bydd eich athro'n disgwyl ac yn derbyn rhai sylwadau cyffredinol i awgrymu pam mae dehongliadau'n amrywio – fel newid yn y dystiolaeth, neu dwf mudiadau hanesyddol gwahanol ar adegau gwahanol.

## Bandiau 5 a 6

I sicrhau marc Band 5 neu 6, bydd raid i chi integreiddio eich ateb i fodloni gofynion AA2 ac AA3 yn arbennig. O'ch amrywiaeth o ffynonellau, dylech allu dangos *sut* a *pham* y byddai hanesydd yn ystyried ffynhonnell yn werthfawr fel tystiolaeth wrth lunio neu gefnogi dehongliad penodol. Dylech drafod dilysrwydd nifer o ddehongliadau eraill (dau o leiaf) a thrafod amrywiaeth o resymau dilys pam mae'r ddadl hanesyddol wedi newid dros amser. Dylech lunio barn â ffocws, gan ymdrin yn glir â dilysrwydd y dehongliad sydd yn y cwestiwn. Wrth benderfynu ym mha fand dylai osod yr ateb, bydd angen i'r athro ystyried ansawdd eich gwaith integreiddio ac ansawdd eich barn ar ddilysrwydd.

### Cyngor

Rhaid i ymatebion Band 6 ddadansoddi a gwerthuso'r ffynonellau cynradd a ddewiswyd er mwyn trafod dilysrwydd nifer o ddehongliadau amgen (dau, o leiaf). Bydd angen trafod amrywiaeth o resymau dilys i ddangos sut datblygodd y ddadl hanesyddol dros amser.

### Crynodeb

- Bydd eich asesiad di-arholiad yn cael ei asesu gan ddefnyddio'r tri amcan asesu ar gyfer TAG Hanes.
- Ar gyfer AA1 mae angen i'ch ateb fod wedi'i strwythuro'n dda, gan gynnig barn wedi'i chefnogi ar y cwestiwn dan sylw.
- Ar gyfer AA2 mae angen i chi ddangos sut gallai ffynonellau cynradd fod wedi dylanwadu ar haneswyr wrth lunio dehongliadau gwahanol.
- Ar gyfer AA3 mae angen dangos eich bod yn deall sut gallai dadl fod wedi datblygu dros amser ymhlith haneswyr ynghylch y mater dan sylw.


Copyright: Sample material



CBAC SAFON UWCH

# Hanes

## Uned 5: Dehongliadau Hanesyddol (asesiad di-arholiad)

Dyma gyfle i gryfhau eich dealltwriaeth drwy gydol y cwrs. Bydd crynodebau clir o bob testun, yn ogystal â chyngor, yn eich helpu i wella eich techneg a chodi safon eich gwaith.

Wedi'i ysgrifennu gan yr hanesydd profiadol Phil Star, mae'r Canllaw hwn i Fyfyrwyr ar gyfer Hanes yn gwneud y canlynol:

- Nodi'r sgiliau allweddol sydd eu hangen i gwblhau eich asesiad di-arholiad
- Eich galluogi i fesur eich dealltwriaeth gyda chyngor a thasgau dan arweiniad
- Datblygu eich sgiliau dysgu annibynnol gyda chynnwys y gallwch chi ei ddefnyddio i astudio ac ymchwilio ymhellach

Llyfrau eraill sydd ar gael ar gyfer CBAC Hanes

9781510482128 Uned 2: Weimar a'i sialensiau, tua 1918–1933
Gareth Holt

9781510482067 Uned 3: Canrif yr Americanwyr, tua 1890–1990
H. J. Davey

9781510482012 Uned 4: Yr Almaen Natsïaidd, tua 1933–45
Gareth Holt

HODDER EDUCATION
www.hoddereducation.co.uk

ISBN 978-1-5104-8207-4